**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Hydref 11eg 2017.**

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts,Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes, Cyng P.Jenkins

**Ymddiheuriadau**

Cyng C.Dixon

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 13eg Medi 2017**

Cyng Morris yn cynnig fod y cofnodion yn gywir Cyng Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Arwyddion/barrier Ffordd y Bothy**— mae CNC wedi gosod arwyddion yn gorchymyn na ddylid gyrru moduron ar y ffordd tuag at y Bothy.

Mae'r CNC hefyd wedi gosod barriers ar draws y ffordd i atal cerbydau yrru ar y ffordd.

**Llwybr rhif 66 ardal Maes Yr Eglwys Wen** – yn dilyn cwynion mewn perthynas a chyflwr mwdlyd y llwybr yma mae Liz Haynes (Cyngor Gwynedd) wedi ymweld a'r safle.

Yn dilyn ei harchwiliad mae Liz o'r farn nad yw 'r llwybr mewn cyflwr gwael ac nad oes angen unrhyw waith atgyweirio ar hyn o bryd.

Fydd yr NRW yn gwneud gwaith atgyweirio yn yr ardal hwn (ddim ar y llwybr yn uniongyrchol).

Bydd Liz yn ail-edrych ar y llwbyr wedi'r gwaith gael ei orffen i sicrhau fod cyflwr y llwybr yn dderbyniol i gerddwyr.

**Arwyddion digidol 20/30 m.y.a yn y pentref** – Yr Asiantaeth Gefnffyrdd (Trunk road agency) sydd yn gyfrifol am symud yr arwyddion ffordd yn y pentref.

Mae'n ymddangos fod yr arwyddion wedi cael eu tynnu i lawr heb awdurdod gan gwmni oedd yn gweithio i'r asiantaeth.

Mae'r clerc a Cynghorydd Sir wedi cysylltu hefo'r asiantaeth sef Mr Merfyn Morris/Chris Garton gan ddatgan eu dymuniad fod yr arwyddion yn cael eu dychwelyd i'r pentref.

Gan na chafwyd ymateb mae'r cyngor am ail gysylltu ar asiantaeth ynglyn y mater yma.

**Cais NP5/60/154 Mast ger Neuadd y pentref-** yn dilyn cyfarfod mis Medi mae'r clerc wedi cysylltu a Mr Aled Lloyd sy'n delio ar mater yma ar rhan y Parc.

Codwyd 4 pwynt ynglyn  a'r cais sef, rheolau iechyd, angen newid safle'r polyn, gwaith atodol a pwy sydd yn derbyn arian gan y cwmni i leoli'r mast yn yr ardal hon.

Derbyniwyd yr ymateb yma gan Mr Lloyd;

Mae'r cwmni yn cydymffurfio a rheolau iechyd.

Mae rhesymau sy'n ymwneud ar angen i newid y safle wedi eu egluro yn y cais.

Mae Mr Lloyd wedi gofyn i'r asiant am fanylion o ymgynghori cyn cyflwyno'r cais.

Nid yw ystyriaeth arian yn fater i'r Parc.

Mae Cyng Jenkins am drafod y mater ariannol hefo'r Aelod Seneddol.

Mae'r cyngor am fynnu am fanylion ymgynghori'r cwmni.

O ystyried yr uchod teimla'r cyngor nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiadau dilys i'r cais cynllunio.

**Gwefan y Cyngor-** Mae Mr Elfed ap Gomer yn parhau i weithio ar y wefan a bydd deunydd a drafodir gan y cyngor yn ystod cyfarfodydd cynharach yn cael ei llwytho ar y safle yn yr wythnosau nesaf.

Cyfeiriad URL y safle we yw http://www.cyngorganllwyd.cymru/

**Tir mynediad agored.-** Mae Cyng Dixon wedi gyrru ymateb i Llywodraeth Cymru yn amlinellu pryderon y cyngor am y mater hwn. Hyd yma nid yw'r cyngor wedi derbyn unrhyw ymateb ffyrfiol.

**Cynghorydd Sir. –** Trafodwyd y mater canlynol:

Arwyddion 20 a 30 m.y.a y pentref- manylion wedi nodi uchod.

Beech Rd/Ffordd Maes yr Eglwys Wen trafferthion hefo dwr ar wyneb y ffordd, gwteri yn parhau. Mae'r cyngor wedi bod yn trafod y mater hwn ers rhai misoedd ac yn rhwystredig nad oes fawr ddim cynnydd wedi ei wneud ar y mater.

Cyng Jenkins i drafod y mater yn bellach hefo adran priffyrdd Cyngor Gwynedd.

**Materion ariannol-** Cyllid misol:

**Cyson Banc: Medi 2017**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£6028.37** |
| **Derbyniwyd:** | **Preasept** | **£1350.00** |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Cynnal/chadw llwybrau** | **£660.00** |
| | **Awdit 2016** | **£346.80** |
| **Yn y banc diwedd mis** | | **£6271.57** |

Cytunwyd fod yr ffigurau uchod yn gywir.

**Awdit 2017-** Cadarnhad fod yr awdit ar ben a fod y cwmni archwilio BDO yn fodlon.

Mae'r ffurflen "Rhybudd o ganlyniad archwiliad" wedi ei arddangos yn unol a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Materion s'yn codi o ganlyniad i'r archwiliad:

Nid yw'r cyngor yn gweithredu Gwefan- Yn unol a llywodraeth leol (democratiaeth) 2013 mae rhaid i'r cyngor gwneud ar gael gwybodaeth electronig i'r cyhoedd e.e sut i gysylltu a'r cyngor,manylion yn ymwneud a'r clerc a'r cynghorwyr a.y.b
I ddatrys y mater hwn mae'r cyngor wrthi'n sefydlu wefan ei hun.

Gwiriadau archwilio mewnol- Mae’r archwiliwr mewnol wedi cofnodi “nad yw wedi gynnwys” yn y profion canlynol ar adran 4 eitem 8 a ystyria BDO sydd yn berthnasol i’r cyngor.

Ar ol archwililio adran 4 eitem 8 yr archwiliad mewnol mae’n amlwg nad oes nodyn nad yw wedi gynnwys gan yr archwiliwr mewnol on ei fod wedi nodi’r adran nad yw’n berthnasol.

Yn adran 1 y ffurflen flynyddol mae’r clerc wedi llenwi’r ffurflen gan gynnwys faint o ceiniogau oedd yn berthnasol.

Ni rhaid gwneud hyn.
Clerc wedi nodi’r ffaith yma.

Rhifo cyfnodau.
Mae rhaid rhifo pob paragraff a tudalen o’r cyfnodion.
Bydd y cyngor yn defnyddio’r broses yma o cyfarfod mis Tachwedd 2017 ymlaen.

Derbyniwyd anfoneb am £128 gan Cyngor Gwynedd ynglyn costau etholiad. Cytunodd y cyngor i dalu’r anfoneb.

Mae’r clerc wedi gwneud cais am ad-daliad costau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

**Llythyrau & E-bost.-**
Dim

**Unrhyw Fater Arall**

Dim